Down ynghyd i wrando ar Air Duw yn ogystal â gweddïo a byddai'n dda felly bod Beibl yn agored ar y bwrdd yn y blaen.

Mae'r oedfa wedi ei rhannu yn ddarnau, bach a mawr, a dyma gyfle i gael cymaint â phosib o ferched i gyfrannu, gan gofio annog pawb sy'n cymryd rhan i godi eu lleisiau, a siarad yn ddigon araf, a chlir, er mwyn i bawb glywed. Hefyd, os yw'n bosibl, mae'n well osgoi rhoi darnau at ei gilydd fel bod un darn hir gan rywun – i fod yn deg â'r sawl sy'n cyflwyno a phawb sy'n gwrando – ac mae modd rhannu darnau hir os gwelwch fod hynny'n addas yn eich amgylchiadau. Gwelwch fod enwau'r darnau mewn italig. Mae rhannau'r llywydd wedi eu nodi mewn print trwm. Does dim rhaid mai dim ond un sy'n darllen holl ddarnau'r llywydd ond mae'n gymorth i glymu'r cyfan at ei gilydd.

Mae'r gweddïau wedi eu cyflwyno eleni yn 48 (rwy'n meddwl mai 48 sydd!) o weddïau byrion, a rhif neu lythyren ar gyfer pob un. Byddai'n braf iawn petai copi ar gael i bawb o'r chwiorydd, a chyfle i fynd â nhw adre ar gyfer gweddïo dyddiol dros gyfnod. Fe'i bwriadwyd fel gweddïau dyddiol yn arwain i fyny at yr oedfa weddi ond maen nhw yr un mor fendithiol o'u gweddïo ar ôl yr oedfa. Gan fod cymaint o weddïau, efallai y bydd trefnwyr lleol yn gweld angen dethol. O fwriad, mae'r holl weddïau yn cael eu cyflwyno yn y cyfieithiad yn y gobaith y bydd yr holl weddïau yn cael eu gweddïo yng Nghymru mewn un Cylch neu'r llall, os nad pob un ym mhob Cylch.

Awgrymir rhifau emynau, ond wrth gwrs mae modd eu newid yn ôl dewis lleol. Bydd angen copïau o Caneuon Ffydd.

Fel yn y blynyddoedd diweddar, yn sgil Covid, bydd angen i'r trefnwyr lleol benderfynu ar sut i gynnal oedfa Dydd Gweddi, un ai yn lleol, ar y cyd, neu ar-lein, gan gymryd sylw o unrhyw ganllawiau ar y pryd.

Bydd angen i'r trefnwyr lleol benderfynu hefyd beth i'w wneud am y casgliad. Mae'r casgliad yn rhan ganolog o'r oedfa, ac mae dau bosib wedi cael eu cynnig: un ai casgliad yn y ffordd arferol; neu neilltuo'r casgliad ar yr adeg yna o'r oedfa, a'i godi a'i roi ar y plât wrth ymadael ar ddiwedd yr oedfa. Cofiwch roi cyfle i rai nad ydynt yn bresennol yn yr oedfa i gyfrannu.

Mae Merritt Johnston o Gynghrair Bedyddwyr y Byd yn cyfeirio at adnoddau, rhwydweithio, a chyd-addoli ar-lein. Wrth i'r cyfieithiad yma gael ei gwblhau, does dim manylion pellach ar gael ond o chwilio ar 'BWA women's day of prayer', gobeithio cewch chi hyd i'r wybodaeth sydd ar gael.

Casgliad: *Fe dderbynnir eich cyfraniadau'n ddiolchgar gan ein trysorydd:*

Mrs Hazel Williams Jones,

26 Erw Goch,

RHUTHUN

LL15 1RR

Os gwelwch yn dda, gwnewch eich sieciau yn daladwy i: Mudiad y Chwiorydd

[Rhan 1: y llywydd, Merritt Johnston, ac Emyn 1]

***Llywydd*: Rwy'n eich cyfarch a'ch croesawu i Oedfa Weddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd ac yn edrych ymlaen at brofi bendith gyda chi. Gadewch inni roi'r oedfa hon i Dduw; gweddïwn: Dad grasol, diolch i ti am y cyfle newydd hwn i'th addoli, ac i'th fawrhau, inni oedi ger dy fron, a cheisio dy feddwl, dy ewyllys. Agor ein calonnau inni werthfawrogi dy roddion hael i ni, a diolch; ac inni gyfrannu fel chwiorydd ar draws y byd mewn gweddi arnat ti er mwyn dy fyd. Clyw ein gweddi, yn enw ac yn haeddiant Iesu Grist ein Gwaredwr, Amen.**

***Llywydd:* Rydym am ddechrau drwy wrando ar eiriau gwraig o'r enw Merritt Johnston, adran Gwragedd, Cynghrair Bedyddwyr y Byd, sy'n cyflwyno'r oedfa weddi i ni eleni:**

Merritt Johnston: Annwyl chwiorydd, croeso i chi i'r oedfa weddi flynyddol hon. Rydym ni'n etifeddion traddodiad o dros 70 o flynyddoedd o Ddydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd. Y fath etifeddiaeth! Y fath hanes inni ddod yn rhan ohoni wrth inni ymuno eto eleni i weddïo, boed gartref, boed yn ein heglwysi neu yn ein cymunedau ar draws y byd.

Ein thema eleni yw 'Bywyd buddugoliaethus', yn seiliedig ar yr ail lythyr at y Corinthiaid yn y Testament Newydd, pennod 2, adnodau 14 hyd at hanner cyntaf 16: 'I Dduw y bo'r diolch, sydd bob amser yn ein harwain ni yng Nghrist yng ngorymdaith ei fuddugoliaeth ef, ac sydd ymhob man, trwom ni, yn taenu ar led bersawr yr adnabyddiaeth ohono.' Wrth inni weddïo eleni, dychmygwn bersawr ein gweddïau ar y cyd yn cael eu codi mewn mwy na chant o wledydd! Rydym yn hyderus y cewch eich bendithio a'ch calonogi wrth inni ddod ynghyd er mwyn darllen Gair Duw, clywed hanesion buddugoliaeth, a cheisio'r Arglwydd mewn gweddi.

Yn ogystal, mae'r Dydd Gweddi yn rhoi cyfle i wragedd Bedyddwyr roi yn hael i gefnogi mentrau byd-eang gweinidogaethau gwragedd Cynghrair Bedyddwyr y Byd a'r saith Undeb Cyfandirol. Mae'r rhoddion ariannol hyn yn parhau i wneud gwahaniaeth tragwyddol, gan ddarparu cymorth ymarferol i wragedd mewn angen, a rhoi modd i wragedd Bedyddwyr newid y byd i Grist. Diolch am fod yn rhan hanfodol o'r digwyddiad yma heddiw sy'n hyrwyddo gweinidogaeth bwysig ar hyd y flwyddyn gron.

Eleni, ochr yn ochr â digwyddiadau lleol fel hyn mae darpariaeth helaeth ar gyfer adnoddau, rhwydweithio, a chyd-addoli ar y we, felly holwch am fanylion!

Edrychaf ymlaen at y cyfan sydd gan Dduw mewn stôr i ni wrth inni adeiladu ar ein hanes a manteisio ar ddulliau newydd i estyn allan yn fwy effeithiol. Diolch i chi eto am y cyfan a wnewch ar gyfer y Deyrnas, ac ar gyfer ein Chwaeroliaeth fyd-eang. Mae i ni fendith ac anrhydedd yn y gwaith hwn.

Cyd-safwn mewn gweddi.

Emyn 1: CFf. 53 / 46/ 164

[Rhan 2: y llywydd, darlleniad 1 a darlleniad 2]

***Llywydd*: Mae'r darlleniad yn fyr, yn dod fel rydyn ni wedi clywed o'r ail lythyr at y Corinthiaid, pennod 2, adnodau 14 hyd at hanner cyntaf 16. Gan ei fod yn fyr, cawn ei glywed yn y cyfieithiad Beibl Cymraeg Newydd, a hefyd yn y cyfieithiad llafar, Beibl.net.**

Darlleniad 1: Beibl Cymraeg Newydd

Ond i Dduw y bo'r diolch, sydd bob amser yn ein harwain ni yng Nghrist yng ngorymdaith ei fuddugoliaeth ef, ac sydd ymhob man, trwom ni, yn taenu ar led bersawr yr adnabyddiaeth ohono. Canys perarogl Crist ydym ni i Dduw, i'r rhai sydd ar lwybr iachawdwriaeth ac i'r rhai sydd ar lwybr colledigaeth; i'r naill, arogl marwol yn arwain i farwolaeth; i'r lleill, persawr bywiol yn arwain i fywyd.

Darlleniad 2: Beibl.net

Ond diolch i Dduw, mae'r gwaith yn dal i fynd yn ei flaen. Dŷn ni'n cerdded ym mhrosesiwn buddugoliaeth y Meseia, ac mae arogl y persawr o gael nabod Duw yn lledu drwy'r byd i gyd! Ydyn, dŷn ni fel arogl hyfryd yn cael ei offrymu i Dduw gan y Meseia ei hun. Mae pawb yn ei arogli – y rhai sy'n cael eu hachub a'r rhai sydd ar eu ffordd i ddistryw. Mae fel mwg gwenwynig i'r ail grŵp, ond i'r lleill yn bersawr hyfryd sy'n arwain i fywyd.

[Rhan 3: y llywydd, Karen Wilson, llefarydd 1, llefarydd 2, Emyn 2]

***Llywydd*: Karen Wilson, llywydd rhyngwladol y chwiorydd, o Awstralia, sy'n agor y Gair ar ein cyfer heddiw:**

Karen Wilson: Bues i'n dathlu penblwydd yn ddiweddar, a gofynnodd fy ngŵr i mi beth allai ei roi i mi yn anrheg. Yr unig beth roeddwn i ei eisiau oedd persawr newydd. Dwi ddim yn cadw nifer o bersawrau, dim ond un bydda i'n ei wisgo bob dydd. Felly dyma ni'n mynd allan i siopa. Ar ôl cymryd amser i drio gwahanol rai, mi ddewisais i yr un roeddwn i am ei gael. Roedd yr oglau yr union beth, ac yn cydweddu yn berffaith â beth roeddwn i ei eisiau.

Welwn i ddim bai arnoch eich bod chi'n edrych ar y byd sydd o'n cwmpas, ac yn meddwl efallai fod trafod persawr yn wamal, braidd. Mae cymaint o ddioddefaint a phoen, cymaint o ansicrwydd, cymaint o ymdrechu byw. Rydych chi'n iawn. Mae'n wir bod yr holl bethau hyn yn rhan o'n bywyd bob dydd. Ac eto, er gwaetha'r pethau hyn i gyd, cerddwn ni drwy fywyd ar hyd llwybr buddugoliaethus, gan daenu gwir bêr sawr Iesu Grist, ac nid unrhyw bersawr a brynwyd mewn siop. Dyma bersawr sy'n denu'r byd, heb fodd i'w wrthod. Nid dros dro mae e – dyw e ddim yn treulio gydag amser. Mae'n cryfhau ac yn tyfu'n harddach drwy'r amser.

Er bod yr apostol Paul yn cydnabod yr heriau roedd e a'r eglwys yn eu hwynebu, dyma beth ddywedodd e: "Ond i Dduw y bo'r diolch, sydd bob amser yn ein harwain ni yng Nghrist yng ngorymdaith ei fuddugoliaeth ef, ac sydd ymhob man, trwom ni, yn taenu ar led bersawr yr adnabyddiaeth ohono."

Persawr y Duw datguddiedig. Mae hynny yn wir yn denu: mae natur a hanfod Duw yn bêr sawr na ellir ei wrthsefyll.

Gadewch inni wrando, i'n hatgoffa'n hunain, i atgoffa'n gilydd, am rai o ddywediadau Gair Duw am Dduw:

Llefarydd 1: Mawr yw ein Harglwydd ni, a chryf o nerth; y mae ei ddoethineb yn ddifesur. (Salm 147:5)

Llefarydd 2: Nid wyf fi, yr ARGLWYDD, yn newid (Malachi 3:6)

Llefarydd 1: Trwy air yr ARGLWYDD y gwnaed y nefoedd, a'i holl lu trwy anadl ei enau. (Salm 33:6)

Llefarydd 2: Cofiwch y pethau gynt, ymhell yn ôl;
oherwydd myfi sydd Dduw, ac nid arall,
yn Dduw heb neb yn debyg i mi.
Rwyf o'r dechreuad yn mynegi'r diwedd,
ac o'r cychwyn yr hyn oedd heb ei wneud.
Dywedaf, 'Fe saif fy nghyngor,
a chyflawnaf fy holl fwriad.' (Eseia 46: 9 – 10)

Llefarydd 1: O ddyfnder cyfoeth Duw, a'i ddoethineb a'i wybodaeth! Mor anchwiliadwy ei farnedigaethau, mor anolrheiniadwy ei ffyrdd! (Rhufeiniaid 11:33)

Llefarydd 2: Os ydym yn anffyddlon, y mae ef yn aros yn ffyddlon, oherwydd ni all ef ei wadu ei hun. (2 Timotheus 2:13)

Llefarydd 1: Ef yw'r Graig; perffaith yw ei waith, a chyfiawn yw ei ffyrdd bob un. Duw ffyddlon heb dwyll yw; un cyfiawn ac uniawn yw ef. (Deuteronomium 32: 4)

Llefarydd 2: Graslon a thrugarog yw'r ARGLWYDD, araf i ddigio, a llawn ffyddlondeb. (Salm 145:8)

Llefarydd 1: Gyfeillion annwyl, gadewch i ni garu ein gilydd, oherwydd o Dduw y mae cariad, ac y mae pob un sy'n caru wedi ei eni o Dduw, ac yn adnabod Duw. Y sawl nad yw'n caru, nid yw'n adnabod Duw, oherwydd cariad yw Duw. (1 Ioan 4: 7 – 8)

Karen Wilson: Dyma bersawr natur a hanfod Duw. Mae'r rhinweddau yn ddi-ben-draw. Mae'r persawr yn cymell. Cawn fywyd buddugoliaethus wrth inni orffwys yn Nuw, a'r cyfan ydy e, ac wrth inni wneud hynny "dŷn ni fel arogl hyfryd yn cael ei offrymu i Dduw gan y Meseia ei hun. Mae pawb yn ei arogli" ac, "i'r rhai sy'n cael eu hachub" mae'n "bersawr hyfryd sy'n arwain i fywyd." (2Corinthiaid 2: 15, 16b)

Mae'r persawr rhagorol hwn yn gyfoethog. Mae'n llawn egni. Mae'n dwyn bywyd i'r rhai difywyd. Ein braint ni ydy dwyn persawr Crist i fyd sydd mewn angen mawr am y fath bêr sawr. Pan fyddwn ni'n bresennol bydd y persawr yn gryf, ond hyd yn oed ar ôl inni fynd oddi yno, bydd ei ôl yn parhau. Felly, beth bynnag ydy cyflwr ein byd, beth bynnag am yr heriau sy'n codi, neu'r gwrthdaro sydd o'n cylch, ceir buddugoliaeth drwy ddwyn natur Duw - gwir adnabyddiaeth o Dduw - i bob sefyllfa. Gyda phob cam a gymerwn, bydd Duw yn ein defnyddio i gario ei bersawr i bob amgylchiad, persawr bywyd buddugoliaethus.

Emyn 2: CFf. 781

[Rhan 4: prosiectau a, prosiectau b, llywydd, gweddi'r offrwm, casglwyr, Emyn 3]

Prosiectau: a) Rhan bwysig o'r Dydd Gweddi yw'r prosiectau sy'n cael eu noddi o'r casgliad, ac eleni mae'r prosiectau yn niferus. Ond oherwydd eu bod mor niferus efallai, mae'r manylion yn brin! Mae'r prosiectau yn cael eu hystyried dan bump prif adran:

1. *Prosiectau b)* Mae'r dydd gweddi ei hun yn brosiect sy'n **cryfhau addoliad, cymdeithas ac undod**: wrth inni ddod ynghyd i baratoi ac i weddïo mae gwragedd yn ymuno i addoli, i gael bendith cymdeithas ysbrydol, ac i ddod yn ymwybodol ein bod ni'n rhannu mewn cenhadaeth. Rydym yn chwaeroliaeth fyd-eang, er mwyn ein cartrefi, ein heglwysi, a'r byd, i Grist.

2. *Prosiectau a)* **Ymateb i angen** yw diben prosiectau adran arall - drwy gymorth, a datblygu cymunedol. Er enghraifft, yn Canada, mae'r chwiorydd yn cefnogi canolfannau ar gyfer mamau beichiog yr ynysoedd arfordirol. Does dim sôn amlwg am gefnogaeth y chwiorydd ar wefan yr Island Pregnancy Centres, ond mae'n fwrlwm o gynigion i wragedd a'u babanod yn yr ardal honno.

   Yn America Ladin wedyn mae bwriad i ledaenu'r llinell ffôn argyfwng ar gyfer gwragedd sy'n cael eu bod yn feichiog yn annisgwyl.

   Yn Papwa, mae'r prosiect i ddysgu rhai i ddarllen ac ysgrifennu, gyda'r bwriad y bydd pob un o'r chwiorydd yn llythrennog o fewn pum mlynedd.

   Ac yn Myanmar, sef y wlad bydden ni'n ei hadnabod fel Burma tan 30 o flynyddoedd yn ôl, mae angen cyllid i roi hyfforddiant meddygol i bobl ifainc fel eu bod yn gallu darparu gofal yn eu cymunedau.

3. *Prosiectau b)* **Arwain cenhadaeth ac efengylu:** Yn Iraq mae'r prosiect yma: sef bwriad i gynnal digwyddiadau i ymestyn allan at wragedd gafodd eu disodli o'u cartrefi yn ardal Mosul a gwastadeddau Ninefe, er mwyn dod i'w hadnabod, a rhannu Crist â nhw.

4. *Prosiectau a)* **Amddiffyn rhyddid crefydd, iawnderau dynol a chyfiawnder.** Rydym yn clywed am drueni'r rhyfela yn yr Wcrain o ddydd i ddydd. Un arall o'r gwledydd annibynnol fu'n rhan o'r Undeb Sofietaidd yw Azerbaijan, ac mae'n wlad lle mae masnachu pobl (human trafficking) yn cael ei gydnabod fel problem, gyda rhai yn cael eu cludo oddi yno ac i fan'no yn gaeth, a'u gosod i weithio fel caethweision llafur a chaeth-weithwyr rhyw. Diben prosiect Tŷ Gobaith yno yw darparu llety a chefnogaeth i ddioddefwyr sydd wedi eu cam-drin, neu eu masnachu.

   Yn Jamaica wedyn, mae prosiect sy'n bwriadu darparu offer cegin ar gyfer hostel i wragedd ifainc bregus, sef yr hostel cyntaf o'i fath.

5. *Prosiectau b)* **Hyrwyddo myfyrdod diwinyddol, ac arweinyddiaeth sy'n trawsffurfio:** Un prosiect sydd o dan y bennawd hon, sef yn Cameroon, gwlad ar arfordir gorllewinol Affrica, o dan gesail Affrica fel petai. Yn fan'no mae Canolfan Galwedigaethol Gwragedd a Merched yn cynnig hyfforddiant sgiliau, ac addysg datblygu arweinwyr, mewn ardal lle mae gwrthdaro wedi cau'r ysgolion ers chwe blynedd. Mae angen prynu offer a chyflenwadau eraill er mwyn cynnal y cyrsiau presennol, a chynyddu'r ddarpariaeth.

Llywydd: **Bydd ein hoffrwm eleni yn cefnogi gweithgareddau a phrosiectau'r gwragedd, gan gynnwys y prosiectau a gyflwynwyd yma. Derbyniwn eich rhoddion nawr /neu/ Gallwch roi eich rhoddion ar y platiau wrth i chi ymadael â'r oedfa.**

Gweddi'r offrwm: Ein Tad, rydym yn diolch i ti am y fraint o fod yn gydweithwyr i ti, ac yn gyfranwyr at dy waith. Bendithia ein rhoddion heddiw i'th wasanaeth; bendithia'r gwaith fydd yn cael ei dalu amdano, bendithia dy weithwyr a bendithia dy fyd. Er mwyn enw Iesu Grist ein Ceidwad. Amen.

Emyn 3: CFf. 825

[Rhan 5: llywydd, gweddïau'r daflen, Emyn 4]

***Llywydd*: Oedfa weddi yw hon, ac mae chwiorydd o bob cyfandir wedi gofyn am weddïau penodol. Yn ogystal â hynny, mae achos i ddathlu o ran gwaith pob un o'r cyfandiroedd. Cofiwn mai 'Bywyd Buddugoliaethus' yw thema'r oedfa, ac mae amlygiadau o'r bywyd buddugoliaethus yma ar bob cyfandir. Gweddïwn gyda'n chwiorydd ar bob cyfandir felly, yn eu tro: (gweler y daflen o weddïau) a gorffennwn ni â gweddi'r Arglwydd**

Gweddïau'r cyfandiroedd – y daflen o weddïau. Os bwriedir dethol gweddïau, gellir nodi'r rhifau yma:

***Llywydd*: Gweddi'r Arglwydd: Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw. Deled dy deyrnas. Gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol. A maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r nerth, a'r gogoniant, yn oes oesoedd Amen.**

Emyn 4: CFf. 839/ 841

***Llywydd*: Gweddïwn: rhown ddiolch i ti unwaith eto ein Tad, am dy gariad. Diolchwn am i ti faddau i ni, am i ti ein cymodi â thydi, am i ti ein hadfer i'n cynnwys yn dy waith. Diolchwn am weledigaeth o'th ddaear newydd a'th nefoedd newydd. Darpara ni'n awr yn dystion i'th gariad, mewn gair a gweithred, yn ein bywydau ac yn ein cymunedau, er mwyn dy enw. Ac yn awr cyhoeddwn dy fendith gyda'n gilydd.**

Pawb: Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glan, fod gyda ni oll o'r awr hon hyd byth/yn oes oesoedd. Amen.

Arweiniad gweddi dyddiol 2022

(Awgrymir y gellir defnyddio'r arweiniad yma am weddi ddyddiol am 40 diwrnod yn arwain i fyny at yr oedfa weddi, neu o gwmpas y cyfnod hwn.)

	Undeb Chwiorydd Bedyddwyr Asia
1	Pandemig Cofid-19: Er bod y pandemig wedi sefydlogi mewn rhai rannau o'r byd, mae amrywiolion a straeniau newydd yn ymddangos yn ne-dwyrain Asia gyda nifer dychrynllyd o bobl yn cael eu heintio. Gweddïwch am amddiffyn, am imiwnedd cryf, a gwellhad buan i bawb.
2	Myanmar: Mae rhyfel gartref Myanmar, ers blwyddyn bellach, wedi disodli miliynau o bobl o'u cartrefi. Mae miloedd wedi eu lladd, neu eu hanafu yn ddifrifol. Gweddïwch am yr ymdrechion am heddwch, am gymod, ac am gyfiawnder, er mwyn sicrhau iachâd ac adferiad i'r genedl a'i phobl.
3	Sri Lanka: Mae pobl Sri Lanka yn dioddef oherwydd helbulon gwleidyddol ac economaidd. Gweddïwch am sefydlogi ac adferiad wrth i'r wlad fynd drwy'r argyfwng gwaethaf yn ei hanes.
4	Trychinebau naturiol yn sgil newid hinsawdd: Mae llawer o wledydd yn Asia yn wynebu gwyntoedd teiffŵn, llifogydd a daeargrynfeydd. Gweddïwch am amddiffyn a chefnogaeth wrth ail-adeiladu o'r trychinebau dinistriol yma.
5	Merched yn cefnogi Merched: Mae'r Weinidogaeth Merched yn cefnogi Merched yn cyrraedd merched a phlant bregus ac ymylol er mwyn estyn rhyddhad dyngarol, a chymorth, ac adferiad bywyd a bywoliaeth. Gweddïwch bydd y twf yn y weinidogaeth hon, a chefnogaeth iddi, yn parhau wrth i'r fenter hon, mewn ymateb i argyfyngau sy'n effeithio ar fywydau pobl ar draws Asia.
A	Dathlu bywyd buddugoliaethus ar waith: Rhown fawl i Dduw am roi i'r Undeb y cyfle i gynnal digwyddiad arbennig yn Chiang Mai, Gwlad Thai ym mis Hydref 2022. Bydd cynhadledd ar gyfer gwragedd ifainc sy'n arweinwyr, hefyd uwchgynhadledd y llywydd, a Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd: dathlwn ein bod ni'n cael holl wledydd yr Undeb ynghyd am y tro cyntaf yn ein hanes.
	Chwiorydd Bedyddwyr Gogledd America
6	Heriau economaidd: Mae merched, yn arbennig mamau sengl, yn wynebu heriau economaidd cynyddol, ac maen nhw'n cael trafferth i sicrhau anghenion sylfaenol fel bwyd, llety, a thrafnidiaeth. Mae llawer yn disgyn rhwng y craciau. Gweddïwch am gyfleoedd economaidd gwell i wragedd i'w cynorthwyo i ymdopi â'r heriau hyn.
7	Trais yn seiliedig ar sail rhywedd: Mae'r pandemig Cofid-19 wedi gwaethygu'r sefyllfa o ran trais yn erbyn gwragedd a genethod. Diolchwn i Dduw am yr ymwybyddiaeth uwch o'r broblem hon, a gweddïwn am i bob gwraig a geneth

	gael eu hamddiffyn, yn ogystal ag am ymdrechion i herio'r feddylfryd cymdeithasol sy'n barod i oddef, neu droi clust byddar, i drais yn erbyn merched.
8	Iechyd meddwl: Mae llawer o heriau sy'n effeithio'n ddrwg ar iechyd meddwl merched ar raddfa ddychrynllyd. Gweddïwch am iechyd meddwl gwell ar gyfer merched, ac am gefnogaeth iechyd meddwl sy'n hawdd ei gael, sy'n effeithiol, yn gyfleus ac yn fforddiadwy.
9	Iechyd gwragedd: Wrth inni ystyried gwyrdroad achos Roe yn erbyn Wade yn yr Unol Daleithiau, oedwn i gydnabod bod llawer o ferched a gwragedd mae eu mynediad at ofal meddygol o safon, at gefnogaeth tra yn feichiog, at adnoddau addysgol, ac at gyfiawnder dan y gyfraith. Gweddïwch am gosbau trymach am drais a llosgach, am lais uwch dros faterion iechyd atgenhedlu gwragedd, gan gynnwys camau ymarferol i leihau cyfraddau marwolaethau gwragedd a babanod, ac ymroddiad lletach gan y gymuned ffydd i ymateb i rai mewn angen.
10	Cyfiawnder hiliol: Yn yr Unol Daleithiau, ac yn Canada, mae hanes hir o hiliaeth gyfundrefnol, hyd yn oed ymhlith Cristnogion. Mae'n destun tristwch fod anghyfiawnder hiliol yn parhau ar draws Gogledd America. Gweddïwch os gwelwch yn dda am y nerth a'r dewrder i ymladd yn erbyn hiliaeth, rhagfarn, casineb at ddieithriaid, ac annhegwch; gweddïwch y bydd yr Eglwys yn gyfrwng newid mewn cymunedau ar draws y rhanbarth.
B	Dathlu bywyd buddugoliaethus ar waith: Rydym yn diolch am nawdd Duw, ei ddarpariaeth, a'i allu ar waith i gynnal tîm gweinyddol yr Undeb. Diolchwn am y drysau sydd wedi eu hagor, y cysylltiadau newydd, a beth mae'r tîm yma wedi ei wneud. Llawenhawn hefyd am y grŵp newydd o arweinwyr fydd yn arwain yr Undeb i ragori o'r newydd, wrth ddal ati i alluogi gwragedd i fyw bywyd y Deyrnas, yn enwedig yn y meysydd sy'n gymorth i bobl fregus.
	Chwiorydd Bedyddwyr y Môr Tawel
11	Trais yn y cartref: Mae'r Cenhedloedd Unedig – Gwragedd yn amcangyfrif fod hyd at 68% o wragedd mewn rhannau o ynysoedd y Môr Tawel yn dioddef y profiad o drais yn y cartref neu yn y teulu. Gweddïwch os gwelwch yn dda am ddiogelwch a gwarchodaeth dioddefwyr trais. Gweddïwch am i'r rhai sy'n cyflawni trais edifarhau. Gweddïwch y bydd modd i'r drefn gyfreithiol orfodi cadw at y deddfau yn erbyn trais yn y cartref. Gweddïwch y bydd eglwysi lleol yn codi llais yn erbyn trais yn y cartref.
12	Newid hinsawdd: Mae ynysoedd y Môr Tawel yn agored iawn i niwed yn sgil newid hinsawdd. Mae effeithiau newid hinsawdd yn gallu cynnwys colli tir yr arfordir, seiclonau a sychderau, a cholli riffiau cwrel (coral reefs) a physgod. Gweddïwch os gwelwch yn dda y byddwn ni'n gofalu'n dda am y ddaear a roddodd Duw i ni. Gweddïwch y bydd yr arweinwyr gwleidyddol yn ddewr i sicrhau newidiadau fydd yn helpu iachau'r blaned. Gweddïwch dros y rhai yn

	ynysoedd y Môr Tawel mae eu bywydau yn cael eu heffeithio gan y newid trist hwn.
13	Cymod: Gweddïwch am gymodi pobloedd cynhenid Awstralia a Seland Newydd. Mae'r pobloedd cynhenid hyn yn dioddef o drawma i lawr y cenedlaethau, ac amarch ers talwm iawn. Maen nhw lawer mwy tebygol o ddioddef problemau iechyd llym, i ddioddef trais, ac i gael eu carcharu. Gweddïwch y bydd yr Eglwys yn cynnig arweiniad yn y cymodi yma.
14	Diogelwch: Gweddïwch am ddiogelwch yn rhanbarth y Môr Tawel. Mae'r tyndra rhwng Awstralia a Tseina yn destun pryder, ac mae gofid am bresenoldeb milwrol yn yr ardal, sy'n effeithio masnach a diogelwch gwladol.
15	Heddwch: Gweddïwch am arweiniad gwleidyddol moesol, fydd yn gwrthod llygredd a chamymddwyn. Gweddïwch am ryddid mynegiant gwleidyddol, heb drais. Gweddïwch y bydd arweinwyr yn dewis cyfiawnder, uwchben grym ac ymbleidio yn ôl llwyth. Halogwyd yr etholiadau yn Papwa Gini Newydd eleni gan drais dychrynllyd, ac arllwys gwaed. Gweddïwch am lywodraethu mwy heddychlon yn y dyfodol.
C	Dathlu bywyd buddugoliaethus ar waith: Rhown ddiolch am gynhaeaf helaeth o brosiectau garddio cynllun 'Hadau Gobaith' yn Ffiji. Bu gwragedd yn dysgu garddio, a phannu gerddi bwyd o gwmpas eu cartrefi. Bu'r cynhaeaf yn darparu bwyd ar gyfer teuluoedd, eglwysi, a'r gymuned. Mae gweithgareddau'r prosiect hefyd yn cyfrannu at iechyd meddwl, berthynas rhwng aelodau teuluoedd, ac yn darparu cyfleoedd efengylu.
	Undeb Gwragedd Bedyddwyr Affrica
16	Tegwch mewn addysg: Mae cyfradd anllythrennedd ymhlith merched ifainc Affrica yn uchel. Gweddïwch yn erbyn rhagfarn yn erbyn merched yn yr ysgolion fel bod merched yn cael cyfle cyfartal i gyfleoedd addysgol a galwedigaethol.
17	Trais yn erbyn merched am eu bod yn ferched: Gweddïwch yn erbyn y ddefod ddiwylliannol o dorri merched (hynny yw, FGM, female genital mutilation) a gweithredoedd eraill o drais sy'n effeithio ar iechyd merched ifainc. Gweddïwch yn erbyn priodasau plant, llosgach, a threisio. Gweddïwch am adnoddau i gefnogi dioddefwyr wrth iddyn nhw wynebu effeithiau corfforol, emosiynol, a meddyliol, trawma a achosir gan drais.
18	Heddwch: Mae llawer o ardaloedd ar draws y rhanbarth yn parhau i wynebu ansefydlogrwydd gwleidyddol ac economaidd. Gweddïwch am drefn etholiadol heddychlon wrth i lawer o wledydd ar draws Affrica gynnal etholiadau. Gweddïwch am sefydlogrwydd gwleidyddol fel bod gwledydd yn profi twf economaidd ac yn cael modd i barhau i ymgynnal. Gweddïwch dros arweinwyr cyfiawn yn y llywodraeth i sefyll i fyny yn erbyn llygredd. Gweddïwch yn erbyn brawychaeth (terrorism) a charfanau arfog sy'n bygwth heddwch.

19	Cenhadaeth ac efengylu: Gweddïwch dros wragedd mae ganddyn nhw galon ar gyfer cenhadu ac efengylu. Gweddïwch am gyfleoedd i estyn allan i'r colledig, a dwyn yn ôl y rhai sy wedi colli golwg ar Dduw.
20	Arweinyddiaeth Undeb y cyfandir: Gweddïwch y bydd y ddawn i roi yn rhan gwragedd fel eu bod yn dyrchafu gwaith y Deyrnas dros Affrica. Gweddïwn yn benodol am ras yr Arglwydd, ei ddoethineb, a'i amddiffyn i arweinwyr yr Undeb cyfandirol newydd wrth iddyn nhw ddechrau eu tymhorau gwasanaeth pum mlynedd.
CH	Dathlu bywyd buddugoliaethus ar waith: Rhown fawl i dduw am y cyfle i gyfarfod ym mis Awst eleni yn Liberia ar gyfer cynhadledd y cyfandir, a gynhelir bob pum mlynedd. Diolchwn am fodd i gydnabod amrywiaeth ac undod gwragedd ar draws y cyfandir, a derbyn anogaeth mewn gweddi, cyfeillach, addoliad, a hyfforddiant.
	Undeb Chwiorydd Bedyddwyr America Ladin
21	Heriau: Mae llawer yn dioddef ar draws y cyfandir yn sgil heriau cymdeithasol fel llygredigaeth wleidyddol ac economaidd, masnachu pobl, a thlodi. Gweddïwch dros ein gwragedd wrth iddyn nhw geisio bod yn lleisiau yn y maes cyhoeddus ac eiriol dros rai mewn angen.
22	Galwad genhadol: Rydym wedi casglu ynghyd yr adnoddau angenrheidiol i gynnal cenhadwr o America Ladin i weithio gyda gwragedd yn India. Gweddïwch y bydd Duw yn codi gwraig i ateb yr alwad hon, a rhoi i'n harweinwyr ddirnadaeth i ddewis ymgeisydd yn dda.
23	Gweinidogaeth argyfwng beichiogrwydd: Mae ein canolfan cyfathrebu yn yr Ariannin yn derbyn cannoedd o alwadau gan wragedd sy'n cael eu bod yn feichiog yn annisgwyl, ac yn eu cysylltu a chefnogaeth yn lleol. Gweddïwch am yr adnoddau i sefydlu canolfannau tebyg ym mhob gwlad yn America Ladin.
24	Cymunedau brodorol: Gweddïwch am gyfleoedd i ddod i adnabod gwragedd a phlant brodorol, a rhannu gyda nhw obaith yr Efengyl.
25	Arweinyddiaeth Undeb y cyfandir: Gweddïwch dros o broses o ddewis arweinwyr Undeb y cyfandir am y pum mlynedd nesaf, ac am ddoethineb a chynhaliaeth Duw wrth iddyn nhw ddatblygu eu hamcanion strategol.
D	Dathlu bywyd buddugoliaethus ar waith: Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi 37 o brosiectau ar draws y cyfandir, gan gynnwys llinell ffôn 24 awr yn rhad ac am ddim ar gyfer gwragedd sy wedi beichiogi yn annisgwyl. O ganlyniad i'r adnodd yma, mae gwragedd wedi cael cymorth angenrheidiol yn ystod eu beichiogrwydd, a 243 o blant iach wedi eu geni.
	Undeb Chwiorydd Bedyddwyr y Caribî

26	Torri cylch trais: Mae trais yn y cartref yn erbyn gwragedd a phlant yn cynyddu. Gweddïwch dros wragedd sy'n dioddef cam-drin seicolegol, geiriol, corfforol a rhywiol. Gweddïwch dros briodasau cadarn lle mae cariad a pharch yn cael eu cynnal a'u dyfnhau rhwng gŵr a gwraig.
27	Diwygiad: Gweddïwch y bydd Duw yn anfon diwygiad mawr ymhlith ieuenctid ein hynysoedd – y byddan nhw'n cael eu hachub, a byw bywyd buddugoliaethus yn Iesu. Gweddïwch y bydd tangnefedd Duw yn parhau i'n hangori, er mwyn inni ddyfalbarhau mewn ffydd ac yng Ngair Duw, hyd yn oedd yn llygad y storm.
28	Codi arweinwyr a bugeiliaid: Gweddïwch y bydd dynion a gwragedd yn derbyn galwad Duw ar eu bywydau, ac ymgynnig i'w hyfforddi yn fugeiliaid ac arweinwyr yng ngwasanaeth y deyrnas. Gweddïwch y bydd bugeiliaid ac arweinwyr eglwysi yn gallu ymateb yn briodol i'r heriau ddaeth yn sgil COVID-19. Gweddïwch am adnewyddiad ysbrydol ar gyfer yr eglwys ôl-COVID.
29	Gwledydd gafodd eu difrodi gan drychinebau naturiol (Haiti / San Andres / St Vincent): Cafodd economïau Haiti, San Andres, San Vincent, ac ynysoedd y Grenadines eu malurio gan drychinebau naturiol. Gweddïwch am adferiad y trefniadau iechyd, cymdeithas a gwleidyddiaeth yn y gwledydd hyn. Effeithiwyd hefyd ar addysg plant gyda llawer yn methu mynd ar y we. Gweddïwch hefyd am heddwch a sefydlogrwydd yn Haiti fel bod y wlad yn gallu dod yn ôl i'r arfer.
30	Pandemig COVID-19: Gweddïwch dros y bobl niferus sy'n parhau i ddioddef aflwydd sy'n gysylltiedig â COVID-19. Cyflwynwch yn eich gweddïau y rhai sy'n brwydro yn erbyn cyflyrau'r ysgyfaint a'r galon, yn ogystal ag iselder ysbryd, a heriau iechyd meddwl, yn sgil COVID-19.
DD	Dathlu bywyd buddugoliaethus ar waith: Rhown glod a diolch i Dduw am ganiatáu golwg hollol newydd ar gyfer Undeb y Caribi, gydag arwyddlun newydd, papur pennawd newydd, a Chyfansoddiad ar ei newydd weddi, mewn tair iaith, sef Saesneg, Sbaeneg a Ffrangeg. Diolchwn hefyd i Dduw am ddatblygu cynllun Hafan Ddiogel i wragedd a phlant yn Jamaica, y cyntaf o'i fath ar yr ynys.
	Chwiorydd Bedyddwyr Ewrop Ynghyd
31	Effaith ansefydlogrwydd gwleidyddol a rhyfel: Mae pobl yn dioddef o ansefydlogrwydd gwleidyddol mewn gwledydd fel Belarus, a Lebanon, o ddifrod rhyfel yn yr Wcrain, ac o effeithiau hir-dymor rhyfeloedd yn Irac, Syria, Armenia, Azerbaijan, a Rwsia. Mae nifer y bobl a ddisodlwyd o'u cartrefu, a ffoaduriaid, yn cynyddu, gyda dros 12 miliwn wedi eu disodli yn yr Wcrain yn unig. Mae teuluoedd wedi cael eu torri. Mae masnachu pobl yn cynyddu. Mae pobl yn galaru. Da chi, os gwelwch yn dda, gweddïwch am heddwch, am adferiad, ac am i bobl allu dal, a hefyd am gyfleodd i godi pobl ffydd i gwrdd â'r anghenion lluosog o'n cwmpas.

32	Cysylltu â'r Eglwys: Oherwydd y pandemig symudodd llawer o Gristnogion i oedfaon ar y we, neu golli cyswllt yn gyfan gwbl. Er bod amgylchiadau iechyd wedi gwella, mae llawer heb ail-gysylltu â'r eglwys, yn enwedig yng Ngorllewin a chanol Ewrop. Gweddïwch y byddan nhw'n ail-gysylltu â'u chynulleidfaoedd, a phrofi o'r newydd llawenydd cymdeithas ysbrydol.
33	Newid hinsawdd: Mae gwledydd Chwiorydd Bedyddwyr Ewrop Ynghyd yn gweld effeithiau newid hinsawdd. Mae'r tymheredd yn codi, mae mwy a mwy o lifogydd, ac mae arfordiroedd yn cilio wrth i'r môr godi. Gweddïwch y bydd Cristnogion yn ymateb fel stiwardiaid da o'r greadigaeth, a chymryd camau i effeithio yn gadarnhaol ar ein planed.
34	Trais yn y cartref: Mae trais yn y cartref yn parhau i gynyddu ar draws ein rhanbarth – y tu allan i'r eglwysi, a'r tu mewn iddyn nhw. Gweddïwch am newid sylfaenol mewn meddyliau a chyfreithiau; gweddïwch dros bawb sy'n arwain mentrau i helpu gwragedd a phlant mewn perygl, ac am dangnefedd a iachâd i bob un sy'n dioddef trais yn y cartref.
35	Canol Asia: Mae gan ein brodyr a'n chwiorydd yng Nghanol Asia le arbennig yn ein calonnau, ond maen nhw'n wynebu llawer o heriau. Gweddïwch am fwy o ryddid crefyddol yn yr ardal, a'r cyfle i adeiladu pont o gymorth atyn nhw oddi wrth wledydd eraill Chwiorydd Bedyddwyr Ewrop Ynghyd.
E	Dathlu bywyd buddugoliaethus ar waith: Rhown fawl i Dduw am y cyfle i drefnu cynhadledd i wragedd ar thema 'Y fath amser â hwn', yn Serbia, ym mis Hydref 2022. Dyma ein cyfarfod cyntaf ers dechrau'r pandemig. Rhown ddiolch hefyd am ffyddlondeb gwragedd yr Wcrain, a gwledydd amgylchynol, sy wedi ymuno i goginio prydau, i agor cartrefi a darparu gofal a chefnogaeth i'r rhai a orfodwyd i ffoi o'u cartrefi.
	Cynghrair Bedyddwyr y Byd, Gwragedd
36	Ymateb i argyfwng ffoaduriaid: Mae ystadegau yn amcangyfrif fod 4 o bob deg o ffoaduriaid y byd yn blant. Gweddïwch am adnoddau i geisio ymateb i anghenion corfforol, emosiynol ac ysbrydol y plant annwyl a gwerthfawr hyn.
37	Sefyll yn erbyn trais yn y cartref: Amcangyfrifir fod un o bob tair gwraig yn y byd wedi dioddef trais gan gymar neu bartner. Mae hyn yn fater sy'n effeithio ar wragedd ar draws y byd, ac mae angen ymateb sy'n cynnwys y byd. Mae 'Cynghrair Bedyddwyr y Byd, Gwragedd' wedi lansio adnodd ar-lein StandAgainstDV.net sy'n dwyn ynghyd adnoddau da i gefnogi unigolion, cynulleidfaoedd a chymunedau wrth iddyn nhw sefyll i fyny yn erbyn trais yn y cartref. Gweddïwch y bydd Duw yn defnyddio'r adnodd hon i addysgu defnyddwyr yr adnodd, a'u harfogi, er mwyn ein dwyn yn agosach at gael gwared drygioni trais yn y cartref.

38	Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Statws Gwragedd: Ym mis Mawrth 2023 bydd y Cenhedloedd Unedig yn cynnal Comisiwn ar Statws Gwragedd. Gweddïwch dros y gwragedd fydd yn ymgynnull ar gyfer y digwyddiad blynyddol yma, y byddan nhw'n dysgu o'r digwyddiad, yn rhwydweithio yn effeithiol ac yn datblygu camau ymarferol pellach er mwyn cefnogi gwragedd ar draws y byd.
39	Cynhadledd fyd-eang Chwiorydd Bedyddwyr: Rydym eisoes wedi dechrau cynllunio ar gyfer cynhadledd ym mis Gorffennaf 2025 yn Brisbane, Awstralia. Gweddïwch am arweiniad yr Ysbryd fel y bydd ein harweinwyr yn ddoeth wrth inni gynllunio, ac y bydd eneiniad ar ein hamser arbennig yma gyda'n gilydd, i ysgogi adnewyddiad a diwygiad ar gyfer gwragedd ar draws y byd.
40	Arweinwyr Chwiorydd Bedyddwyr y Byd: Gweddïwch am ras, doethineb a dygnwch i'n harweinwyr – gan gynnwys y llywydd, Karen Wilson, y trysorydd a'r ysgrifennydd, Sherrie Cherdak, Cyfarwyddwr Gweithredol Merritt Johnston, a phob un o'n llywyddion cyfandirol, saith o'r rhain i gyd. Gweddïwch am don ysbrydol yn seiliedig ar bennod 2 o lythyr Titus, wrth inni ddysgu a phwyso, ac annog pob cenhedlaeth, fel bod y cenedlaethau yn ymuno i gysylltu, i feithrin ei gilydd fel disgyblion, ac i gomisiynu arweinwyr yn yr eglwysi, yn y cymunedau ac ar draws cyfandiroedd. Gweddïwch dros lansio Rhwydwaith Arweinwyr Gwragedd y Gynghrair Byd-eang; bydd y rhwydwaith yn cael ei hyrwyddo gan ein Llywydd gyda'r weledigaeth y bydd gwragedd yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd i arwain, ac i ddylanwadu ar newid ar draws y byd.
F	Dathlu bywyd buddugoliaethus ar waith: Gan weithio mewn partneriaeth â Chymanfa Bedyddwyr Virginia, bu adran Gwragedd Cynghrair Bedyddwyr y Byd yn helpu dechrau gweithio gyda gwragedd ifainc o 14 o wledydd. Ar ôl dilyn cynllun cynghori am naw mis, mae'r arweinwyr ifainc hyn bellach mewn ffordd i ddylanwadu'n fawr yn eu cymunedau yn ogystal ag yng ngwaith adran Gwragedd Cynghrair Bedyddwyr y Byd.